# Dogfen Ganllawiau ADRh

## Cyflwyniad

Nod y ddogfen ganllaw hon yw cynorthwyo staff academaidd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) i ddefnyddio Moodle yn effeithiol, yn unol â Pholisi Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh) y Brifysgol a dogfen Safonau Gwaelodlin ADRh.

Er bod y ddogfen hon yn pwysleisio'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd wedi'u hintegreiddio o fewn Moodle, cydnabyddir hefyd y gallai weithiau fod angen a/neu gallai fod yn fwy priodol defnyddio offer sy'n allanol i'r ADRh, er enghraifft Microsoft OneNote.

# Canllawiau

Trwy gadw at y canllawiau a'r awgrymiadau gorau a nodir yn y ddogfen hon, gall staff academaidd wella'r profiad dysgu ar draws dulliau darparu ar-lein, cyfunol ac wyneb yn wyneb, gan greu amgylchedd strwythuredig, diddorol a chynhwysol sy'n manteisio ar botensial llawn Moodle, a thrwy hynny gefnogi ymrwymiad y Brifysgol i ragoriaeth academaidd.

## Dyluniad a strwythur y cwrs

**Cynllun clir a chyson:** Gwnewch yn siŵr bod cynllun eich cwrs yn reddfol ac yn gyson. Defnyddiwch strwythur clir gyda phynciau neu adrannau wythnosol i helpu myfyrwyr i lywio'n hawdd.

**Safonau gwaelodlin:** Cadwch at Safonau Gwaelodlin ADRh i gynnal profiad myfyriwr cyson. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth hanfodol am y cwrs, deilliannau dysgu, a manylion asesu.

| **Cyngor gorau** | | **Pethau i'w hosgoi** | |
|---|---|---|---|
| **Trefn y cwrs** | **Strwythur clir:** Trefnwch eich cwrs yn bynciau neu adrannau wythnosol. Defnyddiwch gonfensiynau enwi cyson a llif rhesymegol i helpu myfyrwyr i lywio'n hawdd.<br><br>**Trosolwg o'r cwrs:** Darparwch drosolwg cynhwysfawr o'r cwrs, gan gynnwys amcanion, deilliannau dysgu, ac amserlen o weithgareddau ac asesiadau. | **Gorlwytho myfyrwyr** | **Gormod o gynnwys:** Osgowch lethu myfyrwyr â gormod o ddeunyddiau dysgu. Canolbwyntiwch ar ansawdd yn hytrach na maint a sicrhau bod pob adnodd yn bwrpasol.<br><br>**Llywio cymhleth:** Peidiwch â chreu cynllun cwrs dryslyd. Cadwch y strwythur yn syml ac yn reddfol.<br><br>Mae'n bwysig ystyried y mathau o ddyfeisiau y gall myfyrwyr fod yn eu defnyddio i gael mynediad at Moodle. Er enghraifft, gallai tudalen Moodle sydd â llawer o gynnwys fod yn annarllenadwy ar ddyfais symudol. |

## Creu cynnwys

**Deunyddiau diddorol:** Defnyddiwch amrywiaeth o adnoddau amlgyfrwng (fideos, podlediadau, gweithgareddau rhyngweithiol) i ddiwallu anghenion dysgu gwahanol.

**Hygyrchedd a chynhwysiant:** Sicrhewch fod yr holl gynnwys yn hygyrch i bob myfyriwr. Defnyddiwch benawdau disgrifiadol, testun amgen ar gyfer delweddau, a sicrhau bod gan fideos gapsiynau. Gallwch chi ddefnyddio'r bloc adolygu *Hygyrchedd* i nodi a datrys problemau hygyrchedd yn eich tudalen chi.

**Cydymffurfiaeth hawlfraint:** Parchwch ddeddfau hawlfraint a Pholisi Hawlfraint y Brifysgol wrth greu a rhannu deunyddiau.

| Cyngor gorau | | Pethau i'w hosgoi | |
|---|---|---|---|
| **Hygyrchedd a chynhwysiant** | **Cynnwys hygyrch:** Sicrhewch fod yr holl ddeunyddiau dysgu yn hygyrch i bob myfyriwr. Defnyddiwch destun amgen ar gyfer delweddau, capsiynau ar gyfer fideos, a fformatau dogfennau hygyrch.<br><br>**Arferion cynhwysol:** Byddwch yn ymwybodol o gefndiroedd diwylliannol ac anghenion dysgu amrywiol. Darparwch ddeunyddiau ar sawl fformat ac yn Gymraeg, os yw'r cwrs yn cael ei addysgu yn Gymraeg. | **Anwybyddu hygyrchedd** | **Cynnwys anhygyrch:** Peidiwch ag anwybyddu pwysigrwydd hygyrchedd. Sicrhewch fod pob myfyriwr yn gallu cael mynediad at ddeunyddiau'r cwrs ac elwa ohonyn nhw.<br><br>**Arferion anghydffurfiol:** Osgowch ddefnyddio offer neu fformatau nad ydyn nhw'n cydymffurfio a allai rwystro hygyrchedd. |

## Dysgu rhyngweithiol

**Fforymau trafod:** Hwyluso trafodaethau ar-lein i annog rhyngweithio ac ymgysylltu â myfyrwyr. Monitrwch a chymedrolwch fforymau i gynnal amgylchedd parchus a chynhwysol.

**Offer cydweithredol:** Defnyddiwch weithgareddau cydweithredol Moodle megis *Wiki*, *Cronfa Ddata*, *Geirfa*, a *dewis Grŵp* i feithrin gwaith tîm a dysgu gan gymheiriaid. Er enghraifft, gall defnyddio *Cronfa ddata* alluogi myfyrwyr i weithio gyda'i gilydd i adeiladu sylfaen wybodaeth o amgylch pwnc.

| Cyngor gorau | | Pethau i'w hosgoi | |
|---|---|---|---|
| **Dysgu gweithredol** | **Adnoddau amlgyfrwng:** Ymgorfforwch fideos, podlediadau, gweithgareddau | **Dysgu goddefol** | **Cyfathrebu unffordd:** Osgowch ddefnyddio Moodle yn unig yn storfa ar gyfer dogfennau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhyngweithiol, a darlleniadau i gynnig profiad dysgu amrywiol.<br><br>**Elfennau rhyngweithiol:** Defnyddiwch gwisiau, fforymau, a chynnwys rhyngweithiol (megis *H5P*) i ymgysylltu â myfyrwyr yn weithredol.<br><br>**Cyfranogiad gweithredol:** Anogwch fyfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau a thrafodaethau. Defnyddiwch ddull olrhain cwblhau gweithgareddau Moodle i fonitro ymgysylltiad. | | Enynnwch ddiddordeb myfyrwyr â gweithgareddau a thrafodaethau rhyngweithiol.<br><br>**Diffyg rhyngweithio:** Peidiwch ag esgeuluso fforymau ac offer rhyngweithiol eraill. Mae cyfranogiad gweithredol gan fyfyrwyr a hyfforddwyr yn hanfodol.<br><br>**Cynnwys undonog:** Osgowch ddefnyddio deunyddiau testun yn unig. Ymgorfforwch elfennau amlgyfrwng a rhyngweithiol i gadw diddordeb myfyrwyr. Os oes gennych chi lawer o destun, ceisiwch rannu hyn yn ddarnau y gellir eu rheoli, gyda gweithgareddau a/neu gynnwys rhyngweithiol rhyngddyn nhw i gadw diddordeb myfyrwyr. |

## Asesu ac adborth

**Dulliau asesu amrywiol:** Defnyddiwch amrywiaeth o asesiadau ffurfiannol a chyfunol, gan gynnwys cwisiau, aseiniadau, ac asesiadau cymheiriaid i werthuso dysgu myfyrwyr.

**Adborth amserol:** Darparwch adborth adeiladol ac amserol i helpu myfyrwyr i wella a chadw cymhelliant. Defnyddiwch offer adborth Moodle ochr yn ochr â Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol i ddarparu adborth cyson a symleiddio'r broses hon.

| Cyngor gorau | | Pethau i'w hosgoi | |
|---|---|---|---|
| **Asesu ac adborth** | **Asesiadau amrywiol:** Defnyddiwch amrywiaeth o ddulliau asesu, gan | **Esgeuluso adborth** | **Adborth wedi'i ohirio:** Peidiwch â gohirio cyn darparu adborth ar asesiadau. Mae |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynnwys cwisiau, aseiniadau, ac asesiadau cymheiriaid, i werthuso dysgu myfyrwyr.<br><br>**Adborth amserol:** Darparwch adborth adeiladol yn brydlon i helpu myfyrwyr i wella. | | adborth amserol yn hanfodol ar gyfer gwella myfyrwyr.<br><br>**Adborth generig:** Osgowch roi adborth generig neu amhenodol. Teilwrwch eich sylwadau i helpu myfyrwyr i ddeall eu cryfderau a meysydd i'w gwella. |

## Cyfathrebu a disgwyliadau

**Diweddariadau rheolaidd:** Rhowch wybodaeth barhaus i fyfyrwyr trwy ddiweddariadau a chyhoeddiadau rheolaidd. Defnyddiwch nodwedd *Cyhoeddiadau* Moodle a'r gweithgaredd *Fforwm* i gyfleu gwybodaeth bwysig.

**Oriau swyddfa a chymorth:** Cynigwch oriau swyddfa rhithwir a byddwch ar gael i gefnogi myfyrwyr. Crëwch gyhoeddiad neu ddefnyddio'r bloc *Quickmail* ar gyfer cyfathrebu cyflym gan Moodle.

| **Cyngor gorau** | | **Pethau i'w hosgoi** | |
|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu** | **Cyhoeddiadau:** Defnyddiwch y *nodwedd Cyhoeddi* i roi gwybod i fyfyrwyr am ddiweddariadau a dyddiadau cau pwysig.<br><br>**Fforymau trafod:** Hwyluso trafodaethau i annog rhyngweithio ac adeiladu cymuned ddysgu. Monitro a chymryd rhan mewn fforymau i arwain sgyrsiau. | **Diweddariadau anghyson** | **Cyfathrebu afreolaidd:** Peidiwch â gadael myfyrwyr yn y tywyllwch. Diweddarwch nhw'n rheolaidd ar gynnydd cwrs, dyddiadau cau, ac unrhyw newidiadau.<br><br>**Deunyddiau sydd wedi dyddio:** Sicrhewch fod yr holl gynnwys yn gyfredol ac yn berthnasol, dileu neu ddiweddaru adnoddau sydd wedi dyddio. |

## Hyfforddiant a chymorth

**Dysgu parhaus:** Cymerwch ran mewn datblygiad proffesiynol parhaus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion ac arferion gorau Moodle. Cymerwch ran mewn sesiynau hyfforddi a gynigir gan dimau Moodle, Dysgu Digidol a Sgiliau Digidol, yn ogystal â digwyddiadau

megis Cynhadledd Nexus. Gallwch chi ddod o hyd i adnoddau perthnasol ar Canfyddydd Adnoddau'r Ganolfan Ddigidol ac ar LinkedIn Learning.

**Cymorth cymheiriaid:** Cydweithio â chydweithwyr i rannu profiadau a strategaethau ar gyfer defnyddio Moodle yn effeithiol. Ymunwch â fforymau a chymunedau ymarfer o fewn y brifysgol, megis Caffi Dysgu ac Addysgu Nexus.

## Monitro a gwerthuso

**Adborth myfyrwyr:** Ceisiwch adborth gan fyfyrwyr yn rheolaidd ar eu profiad dysgu a'i ddefnyddio i wella dyluniad a chyflwyno cyrsiau. Er enghraifft, cyfeiriwch fyfyrwyr i ddefnyddio'r Holiadur Gwerthuso Modwl neu ddal eich adborth eich hun gan fyfyrwyr gan ddefnyddio Microsoft Forms.

**Hunanasesiad:** Adfyfyriwch ar eich arferion addysgu a gwneud addasiadau yn ôl yr angen. Defnyddiwch offer dadansoddi Moodle i olrhain ymgysylltu a pherfformiad myfyrwyr.

| **Cyngor gorau** | | **Pethau i'w hosgoi** | |
|---|---|---|---|
| **Gwelliant parhaus** | **Adborth myfyrwyr:** Ceisiwch adborth gan fyfyrwyr yn rheolaidd ar eu profiad dysgu a'i ddefnyddio i wella'ch cwrs.<br><br>**Datblygiad proffesiynol:** Dilynwch y wybodaeth gyfredol am y nodweddion Moodle a'r strategaethau addysgeg diweddaraf. Cymerwch ran mewn sesiynau hyfforddi a gweithdai. | **Adborth myfyrwyr** | **Anwybyddu mewnbwn myfyrwyr:** Peidiwch ag anwybyddu adborth myfyrwyr. Defnyddiwch ef i wneud yr addasiadau angenrheidiol a gwella'r profiad dysgu. |

# Strategaethau addysgeg ac arferion gorau

Er mwyn gwneud fawr o botensial Moodle, mae'n hanfodol integreiddio egwyddorion addysgeg cadarn wrth ddylunio a darparu eich cwrs. Yn yr adran hon fe welwch chi ddetholiad o strategaethau pedagogaidd allweddol ac arferion gorau sy'n sail i Safonau Gwaelodlin ADRh.

## Dysgu adeileddol

Mae dysgu adeileddol yn pwysleisio rôl weithredol myfyrwyr wrth adeiladu eu dealltwriaeth eu hunain. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo dysgu a dealltwriaeth ddyfnach trwy annog myfyrwyr i ymgysylltu'n weithredol â'r deunydd ac adeiladu ystyr yn seiliedig ar eu profiad personol, gan integreiddio gwybodaeth newydd â'u gwybodaeth bresennol.

**Dysgu gweithredol:** Anogwch fyfyrwyr i gymryd rhan weithredol yn eu proses ddysgu trwy drafodaethau, gweithgareddau datrys problemau, a phrosiectau cydweithredol. Gellir defnyddio llawer o weithgareddau Moodle i gefnogi dysgu gweithredol a chydweithredol, megis *Fforwm, Wiki* a *Geirfa*.

**Sgaffaldau dysgu:** Darparwch strwythurau cymorth i helpu myfyrwyr i adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol a dileu'r cymorth hwn yn raddol wrth i fyfyrwyr ddod yn fwy hyfedr. Gallai hyn gynnwys defnyddio amser ar dasg trwy roi gwybod i fyfyrwyr pa mor hir y disgwylir neu ddarparu cyfarwyddiadau ychwanegol i'ch myfyrwyr gan ddefnyddio'r *maes Testun a'r Cyfryngau*. Crëwch brofiad dysgu ar sail sgaffaldau gan ddefnyddio *Gwers* a *Cwis*, yn ogystal â llawer o'r gweithgareddau o fewn *H5P*.

## Dysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr

**Dysgu wedi'i addasu'n bersonol:** Teilwrwch brofiadau dysgu i ddiwallu anghenion amrywiol myfyrwyr. Defnyddiwch weithgareddau amodol Moodle ac olrhain cwblhau i greu llwybrau dysgu sydd wedi'u haddasu'n bersonol.

**Annibyniaeth myfyrwyr:** Grymuswch fyfyrwyr i gymryd rheolaeth ar eu dysgu trwy ddarparu dewisiadau mewn aseiniadau a gweithgareddau. Defnyddiwch *Adborth, Holiadur a Dewis* i holi myfyrwyr am eu barn a'u dewisiadau.

## Dysgu cydweithredol

**Dysgu gan gymheiriaid:** Anogwch fyfyrwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd trwy asesiadau gan gymheiriaid a gwaith grŵp. Defnyddiwch *Gweithdy* ar gyfer adolygiadau cymheiriaid ac aseiniadau grŵp ar gyfer prosiectau cydweithredol. Gall Moodle hefyd eich cynorthwyo chi i hwyluso gweithgareddau grŵp. Er enghraifft, gallwch chi ddefnyddio Fforymau i annog myfyrwyr i drafod ac archwilio pynciau penodol.

**Adeiladu cymuned:** Meithrinwch ymdeimlad o gymuned yn eich cwrs. Defnyddiwch *Fforwm* Moodle neu Microsoft Teams i greu mannau ar gyfer rhyngweithio a chymorth anffurfiol. Dechreuwch gyda thasgau bach ar gyfer cydweithredu a dysgu gan gymheiriaid wrth i fyfyrwyr ddod i adnabod ei gilydd, cyn symud ymlaen i dasgau pwysicach. Er enghraifft, os ydych chi'n defnyddio *Fforwm* ym Moodle, gallai torrwr iâ pwysigrwydd isel helpu i fagu hyder cyn i fyfyrwyr bostio eu post trafod cyntaf.

## Dysgu adfyfyriol

**Hunanasesiad:** Anogwch fyfyrwyr i adfyfyrio ar eu dysgu ac asesu eu cynnydd. Er enghraifft, gallwch chi ddefnyddio *Cwis, Adborth* neu lawer o'r gweithgareddau o fewn *H5P* i greu cyfleoedd ar gyfer hunanasesu.

**Dyddlyfrau adfyfyriol:** Defnyddiwch *faes Testun a chyfryngau* i annog myfyrwyr i adfyfyrio ac offeryn cymryd nodiadau, megis Microsoft OneNote, i ganiatáu i fyfyrwyr ddogfennu eu taith ddysgu ac adfyfyrio ar eu profiadau.

## Dysgu cynhwysol

**Dyluniad Cyffredinol Dysgu (UDL):** Dyluniwch eich cwrs i fod yn hygyrch i bob myfyriwr. Gall gweithgareddau ac adnoddau Moodle eich helpu chi i ddylunio modwl cynhwysol a hygyrch sy'n cyd-fynd ag egwyddorion UDL. Er enghraifft:

- Defnyddiwch y gweithgaredd Dewis i adael i fyfyrwyr ddewis pwnc trafod o restr, gan fynd i'r afael ag Ystyriaeth 7.2 UDL: Optimeiddio perthnasedd, gwerth a dilysrwydd.
- Defnyddiwch weithgaredd *Geirfa* i ddiffinio termau a ddefnyddir yn aml, gan gefnogi Ystyriaeth 2.1 UDL: Egluro geirfa, symbolau, a strwythurau iaith.

**Eglurder gwybodaeth:** Dylech chi hefyd fod yn ymwybodol o jargon, acronymau a thermau technegol, yn enwedig wrth eu defnyddio am y tro cyntaf. Efallai na fydd eich myfyrwyr yn gwybod at beth rydych chi'n cyfeirio, felly rhowch esboniad neu defnyddiwch *Geirfa* Moodle.

## Asesiad ffurfiannol

**Adborth parhaus:** Darparwch adborth amserol ac adeiladol i helpu myfyrwyr i wella. Mae llawer o weithgareddau Moodle yn caniatáu ichi ddarparu adborth o'r fath ac aseinio graddau ynddyn nhw, megis *Fforwm, Gwersi, Cronfeydd Data* a *Geirfa*.

**Profion risg isel:** Defnyddiwch gwisiau aml, risg isel i helpu myfyrwyr i fesur eu dealltwriaeth a lleihau pryder prawf. Mae gweithgaredd Cwis Moodle yn caniatáu adborth awtomataidd ac ymdrechion lluosog.

## Dysgu cyfunol

**Integreiddio ar-lein ac wyneb yn wyneb:** Integreiddio gweithgareddau ar-lein yn ddi-dor gyda chyfarwyddyd wyneb yn wyneb. Defnyddiwch Moodle i ddarparu darlleniadau cyn y dosbarth, gweithgareddau yn y dosbarth, ac adfyfyrdodau ar ôl y dosbarth.

**Dosbarth gwrthdro:** Defnyddiwch Moodle i gyflwyno cynnwys addysgol y tu allan i'r dosbarth, gan ryddhau amser dosbarth ar gyfer gweithgareddau rhyngweithiol, ymarferol. Lanlwythwch fideos darlithoedd a darlleniadau i Moodle a defnyddiwch amser dosbarth ar gyfer trafodaethau a datrys problemau.

## Ymgysylltu a chymhelliant

**Gemau:** Ymgorffori elfennau gêm megis bathodynnau, byrddau arweinwyr, a heriau i ysgogi myfyrwyr. Defnyddiwch fathodynnau a nodweddion cwblhau gweithgareddau Moodle i drosi'r cwrs ar ffurf gemau, yn ogystal â'r *ategyn Level Up XP* ym Moodle.

**Cynnwys rhyngweithiol:** Defnyddiwch gynnwys rhyngweithiol i gadw diddordeb myfyrwyr. Mae integreiddiad *H5P* Moodle yn caniatáu ichi greu fideos rhyngweithiol, cwisiau a chyflwyniadau.

### Cyfathrebu effeithiol

**Cyfarwyddiadau clir:** Darparwch gyfarwyddiadau clir a chryno ar gyfer pob gweithgaredd ac asesiad. Defnyddiwch *faes Testun a chyfryngau* i roi canllawiau a disgwyliadau manwl.

**Gwiriadau rheolaidd:** Cyfathrebwch yn rheolaidd â myfyrwyr i gadw eu diddordeb a'u hysbysu. Defnyddiwch *Cyhoeddiadau* a *Fforwm* i gadw mewn cysylltiad. Fel arall, defnyddiwch eich sianeli cyfathrebu arferol ym Microsoft (megis Teams ac Outlook).

## Gwelliant parhaus

**Dolenni adborth:** Ceisiwch adborth gan fyfyrwyr yn rheolaidd ar eu profiad dysgu a'i ddefnyddio i wella'ch cwrs. Defnyddiwch offer adborth ac arolwg Moodle i gasglu mewnbwn myfyrwyr.

**Datblygiad proffesiynol:** Dilynwch hynt ddiweddaraf technolegau addysgol a'r strategaethau addysgeg diweddaraf. Cymerwch ran rhan mewn sesiynau hyfforddi a gweithdai a gynigir gan y Tîm Dysgu Digidol.

# Cymorth pellach

Am ganllawiau mwy penodol, cyfeiriwch at ddogfen Safonau Gwaelodlin ADRh.

Am gymorth pellach, cysylltwch â'r Tîm Dysgu Digidol yn dysgudigidol@pcydds.ac.uk